Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw i Rieni a Gofalwyr i'r Trefniadau Asesu ar gyfer babanod a phlant 0 i 3 oed yng Nghymru






# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Beth yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar? 4

Beth yw ystyr asesu? 4

Beth yw'r adnodd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru? 5

Sut bydd anghenion a datblygiad fy mabi neu fy mhlentyn ifanc yn cael eu hasesu? 5

Sut y gallwch chi helpu a bod yn rhan o'r broses? 6

Beth fydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn ei wneud? 6

Hawliau babanod a phlant ifanc a'ch hawliau chi 7

Cwestiynau cyffredin 8

Rhagor o wybodaeth 9

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52899, ISBN digidol 978-1-80633-707-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

Mae pob babi a phlentyn ifanc yng Nghymru yn haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Dyna pam mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi'i lunio.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Trefniadau asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru yn rhan o'r cynllun hwnnw. Nid profion ydyn nhw – maen nhw'n ffordd i staff meithrin/gwarchodwyr plant arsylwi, dadansoddi ac ymateb i sut mae babanod a phlant ifanc yn dysgu, chwarae, tyfu a datblygu.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut beth yw'r asesu yn ymarferol, beth allwch chi ei ddisgwyl, a sut y gallwch chi fod yn rhan ohono.





# Beth yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar?

**Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar** yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi twf babanod a phlant ifanc drwy chwarae, dysgu a gofal o safon yn y blynyddoedd cynnar.

# Beth yw ystyr asesu?

Ar gyfer yr ystod oedran honno, mae trefniadau asesu'r staff meithrin/gwarchodwyr plant yn ymwneud â **dod i adnabod eich babi/plentyn ifanc** — beth maen nhw'n ei fwynhau, beth y gallan nhw ei wneud, a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu nesaf. Pan fyddwn yn siarad am asesu ar gyfer babanod a phlant ifanc, nid ydym yn golygu profion na sgoriau.


Mae staff meithrin/gwarchodwyr plant a theuluoedd yn gweithio gyda'i gilydd i sylwi ar sut mae eich plentyn yn tyfu ac yn dysgu trwy **chwarae, arferion pob dydd, a rhyngweithio**, fel y gallant roi'r cymorth cywir ar yr adeg iawn. Mae'n rhan o fywyd bob dydd: gwylio, gwrando, chwarae a siarad â'ch babi neu â'ch plentyn ifanc. Mae'n ymwneud â sylwi, deall ac ymateb – a helpu pob babi a phlentyn ifanc i ffynnu.

# Beth yw'r adnodd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru?

Mae'r adnodd hwn yn esbonio sut mae staff meithrin/gwarchodwyr plant yn gweithio gyda babanod/plant ifanc i'w helpu i gael y cymorth cywir wrth iddynt dyfu a dysgu. Mae'n dwyn ynghyd un dull syml i bawb sy'n gweithio gyda babanod/plant ifanc o dan 3 oed.

Mae staff meithrin/gwarchodwyr plant yn **sylwi** ar sut mae babanod/plant ifanc yn datblygu ym mhob maes — chwarae, dysgu, siarad a gwrando, symud, teimladau, ymddygiad a dod ymlaen ag eraill.

Maen nhw'n gwneud hyn trwy wylio a gwrando yn ystod gweithgareddau bob dydd fel chwarae, gorchwylion arferol, siarad ac archwilio. Yna maen nhw'n **meddwl am** yr hyn y maen nhw wedi'i weld (**dadansoddi**), **cynllunio beth i'w wneud nesaf** i helpu'r plentyn (**ymateb**), ac yn **edrych yn ôl** ar ba mor dda mae pethau wedi mynd (**myfyrio**).



# Sut bydd anghenion a datblygiad fy mabi neu fy mhlentyn ifanc yn cael eu hasesu?

Mae asesu yn helpu pob babi/plentyn ifanc i wneud cynnydd yn ôl eu cyflymder eu hunain. Nid yw'n brawf — mae'n ymwneud â sylwi ar yr hyn y gall eich babi/plentyn ifanc ei wneud a sut mae'n dysgu trwy chwarae a bywyd bob dydd.


Mae staff meithrin neu warchodwyr plant yn sylwi ar yr hyn y gall eich babi/plentyn ifanc ei wneud yn ystod arferion pob dydd ac wrth chwarae. Er enghraifft:

- **Stacio blociau neu ymuno mewn caneuon** – dangos sgiliau corfforol neu gyfathrebu
- **Archwilio teganau neu weithgareddau newydd** – dangos sgiliau meddwl a datrys problemau
- **Chwarae ochr yn ochr ag eraill neu gydag eraill** – dangos datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae'r camau bach bob dydd hyn yn helpu staff meithrin neu warchodwyr plant i ddeall cryfderau a diddordebau eich babi/plentyn ifanc, a pha gymorth y gallai fod ei angen arno nesaf. Mae asesiad da hefyd yn helpu i nodi'n gynnar a oes angen help ychwanegol neu her ychwanegol ar fabi/plentyn ifanc, fel y gall gyrraedd ei botensial llawn.

Gall staff meithrin/gwarchodwyr plant wneud nodiadau byr, tynnu lluniau, neu gadw enghreifftiau o ddatblygiad a'r hyn a ddysgir i helpu i gadw cofnod o'r cynnydd. Nid oes amserlen sefydlog — mae'r asesiad yn digwydd yn naturiol trwy gydol y dydd ac yn cael ei rannu'n rheolaidd gyda chi trwy sgyrsiau, diweddariadau, neu drafodaethau sydd wedi'u trefnu.

Os oes angen cymorth ychwanegol, bydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn siarad â chi ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod eich babi/plentyn ifanc yn cael y cymorth cywir wrth iddynt dyfu a dysgu.




# Sut y gallwch chi helpu a bod yn rhan o'r broses?

Chi sy'n adnabod eich babi/plentyn ifanc orau. Gallwch chi helpu drwy wneud y canlynol:

- Rhannu'r hyn rydych chi'n ei sylwi arno gartref sy'n ymwneud â'r ffordd y mae eich babi/plentyn ifanc yn chwarae, ei hoffterau, ei gryfderau, a'r hyn sy'n eich poeni.
- Ymuno mewn gweithgareddau â'ch gilydd, er enghraifft drwy chwarae, siarad, canu, darllen, archwilio – mae pethau bach bob dydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.
- Gofyn i staff meithrin/gwarchodwyr plant eich babi/plentyn ifanc sut y gallwch gefnogi camau nesaf eich babi/plentyn ifanc.
- Gofyn am ddiweddariadau ar y cynnydd, gofyn cwestiynau, a chodi unrhyw bryderon.

# Beth fydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn ei wneud?

- Defnyddio eu sgiliau i arsylwi ar eich babi/plentyn ifanc mewn lleoliadau naturiol (chwarae, gorchwylion arferol, ac ati).
- Cynllunio gweithgareddau dysgu a chwarae sy'n adeiladu ar yr hyn y gall eich babi/plentyn ifanc ei wneud eisoes.
- Siarad â chi yn rheolaidd am gynnydd eich babi/plentyn ifanc.
- Helpu i nodi a oes angen cymorth ychwanegol neu fwy o her, a gweithio gyda chi i helpu.
- Parchu hawliau eich babi/plentyn ifanc a'ch rôl fel rhiant neu ofalwr.

# Hawliau babanod a phlant ifanc a’ch hawliau chi

- Mae gan bob babi/plentyn ifanc yng Nghymru hawl i: chwarae, dysgu ac i bobl wrando arnynt.
- Mae’r asesu yn ymwneud â helpu babanod/plant ifanc, ac nid eu beirniadu.
- Mae’r holl wybodaeth a gesglir o’r asesiadau yn breifat ac yn cael ei rhannu gyda’r rhai sydd ei hangen i gefnogi eich babi/plentyn ifanc yn unig.





# Cwestiynau cyffredin

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| **A ydy hyn yn rhywbeth newydd?** | Nac ydy, mae'n adeiladu ar yr hyn y mae staff meithrin/gwarchodwyr plant eisoes yn ei wneud — mae'r adnodd hwn yn ei gwneud yn gliriach ac yn fwy cyson. |
| **A ydy hyn fel prawf?** | Nac ydy. Mae'n seiliedig ar weld eich babi/plentyn ifanc a gwrando arno yn ei fywyd bob dydd, nid yw'n brawf ffurfiol. |
| **A fyddaf yn cael rhywbeth ysgrifenedig?** | Efallai y bydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn gwneud nodiadau byr neu'n defnyddio offer digidol i gadw cofnod, ond mae'r prif ffocws ar siarad â chi a rhannu sut mae eich babi/plentyn ifanc yn gwneud — nid ar waith papur. |
| **A fyddaf yn cael gwybod am y cynnydd y mae fy mabi neu fy mhlentyn ifanc yn ei wneud?** | Byddwch. Bydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn rhannu'r hyn y maen nhw'n ei weld a'r hyn maen nhw'n ei gynllunio nesaf gyda chi. |
| **Pa mor aml y bydd fy mabi neu fy mhlentyn ifanc yn cael ei asesu?** | Mae'r asesu'n parhau. Bydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn arsylwi ar eich babi/plentyn ifanc trwy gydol y dydd. |
| **Beth os oes angen help ychwanegol?** | Bydd staff meithrin/gwarchodwyr plant yn siarad â chi am yr opsiynau. Mae cymorth cynnar yn helpu. |
| **Beth os ydw i'n poeni neu os oes gennyf bryderon?** | Gallwch ofyn am ragor o wybodaeth, trafod â'r lleoliad, neu gysylltu â staff arweiniol y lleoliadau. |

# Rhagor o wybodaeth

- I gael hyd i adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (gan gynnwys y Trefniadau Asesu a thaflen ar Hawliau Plant i rieni), cliciwch yma: Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Adnoddau
- Siaradwch â meithrinfa, gwarchodwr plant neu grŵp chwarae eich babi neu eich plentyn ifanc
- Cysylltwch â gwasanaethau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol/gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd
- Ewch i dudalen we Teulu Cymru: cymorth i deuluoedd yng Nghymru

